

Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-11-09 papur 11

Ymchwiliad y Pwyllgor i Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol – Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda

Mawrth 2009

‘CAIS AM DYSTIOLAETH A CHYHOEDDI YMCHWILIAD PWYLLGOR: GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL YN Y GYMUNED’

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cytuno i ymgymryd ag ymchwiliad i wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned ac mae'n galw ar y rheini y mae ganddynt ddiddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

1. Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:

Darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned yng Nghymru i bobl 16-60 oed, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Gapasiti ac argaeledd daearyddol gwasanaethau
- Darpariaeth gwasanaethau i bobl ifanc dros 16 oed wrth bontio o wasanaethau plant i oedolion
- Effaith effeithiolrwydd gwasanaethau yn y gymuned ar dderbyniadau i'r ysbyty ac oedi wrth drosglwyddo gofal
- Cydlyniad effeithiol elfennau gofal iechyd a chymdeithasol gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol
- Materion cydraddoldeb sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gan gynnwys y rheini ar gyfer grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Enghreifftiau o arfer da wrth gyflenwi gwasanaethau

Ymhlith rhai o'r materion sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad hwn y mae:

- Gwendidau yn narpariaeth bresennol gwasanaethau cymunedol i oedolion.
- Integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol yn wael mewn rhai Timau Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Problemau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac sy'n pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.
- Materion sy'n ymwneud â dewisiadau eraill ar wahân i dderbyn i'r ysbyty a rhyddhau prydlon a diogel o ganlyniad i wasanaethau

cymunedol annigonol gan gynnwys datrys argyfwng / triniaeth yn y cartref a gwasanaethau tai a chymorth.

- Pryderon ynglŷn â'r Dull Rhaglen Ofal, gan gynnwys gweithredu amrywiol ledled Cymru.
- Pryderon ynglŷn â digonolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledd corfforol a'r rheini â phlant.

2. Capasiti ac argaeledd daearyddol gwasanaethau

Mae Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr, sy'n cynnwys siroedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn darparu gwasanaethau ym mhob un o'r ardaloedd hyn. O ganlyniad i faterion gwledig, trafnidiaeth a daearyddol, mae angen darparu gwasanaethau ym mhob ardal. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

Gwasanaethau i Oedolion Ceredigion – 2 x Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol, 1 x Tîm Allgymorth Grymusol, 1 x Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref ac 1 x Uned Cleifion Mewnol Acíwt gyda llwyth achosion gweithredol o 445 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u cofrestru ym mis Ionawr 2009. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd o ran datblygu tîm ar gyfer Ymyriadau Cynnar mewn Seicosis.

Gwasanaethau i Oedolion Hŷn Ceredigion – 1 x Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, 1 x Uned Cleifion Mewnol gyda llwyth achosion gweithredol o 208 o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Gwasanaethau i Oedolion Sir Gaerfyrddin – 4 x Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, 2 x Dîm Allgymorth Grymusol, 2 x Dîm Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref a 2 x Uned Cleifion Mewnol Acíwt gyda llwyth achosion gweithredol o 983 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u cofrestru ym mis Ionawr 2009.

Gwasanaethau i Oedolion Hŷn Sir Gaerfyrddin – 3 x Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, 2 x Uned Cleifion Mewnol gyda llwyth achosion gweithredol o 985 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u cofrestru ym mis Ionawr 2009.

Gwasanaethau i Oedolion Sir Benfro – 2 x Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol, 1 x Tîm Allgymorth Grymusol, 1 x Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref, 1 x Tîm Seicosis Ymyrraeth Gynnar, 1 x Uned Cleifion Mewnol Acíwt gyda llwyth achosion gweithredol o 564 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u cofrestru ym mis Ionawr 2009.

Gwasanaethau i Oedolion Hŷn Sir Benfro – 1 x Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ac 1 x Uned Cleifion Mewnol gyda llwyth achosion gweithredol o 275 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u cofrestru ym mis Ionawr 2009.

Mae nifer yr atgyfeiriadau ym mhob ardal yn amrywio, gyda'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol mwy yn derbyn llawer mwy o atgyfeiriadau na'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol llai.

Cyfeiriwch at **Atodiad 1** am ddata sylfaenol pellach a gasglwyd er mwyn dangos rhywfaint o'r galw presennol am wasanaethau.

Mae adroddiad Targedau'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol (FfGB) 2009/2010 yn cynnwys data pellach e.e. llwythi achosion Timau Allgymorth Grymusol (**Atodiad 2**).

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn blynyddoedd diweddar o ran adolygu'r sefyllfa a'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol er mwyn cytuno ar welliannau i wasanaethau / gofynion moderneiddio ar draws y Gyfarwyddiaeth.

Mae gwybodaeth sylfaenol a gafwyd o adolygiadau a wnaed o alw a chapasiti o fewn y gwasanaethau hyn yn dangos bod angen gwaith pellach er mwyn asesu'n glir rolau'r gwasanaethau presennol a'r staff o fewn y gwasanaethau hyn wrth gyflawni gweledigaeth y Gyfarwyddiaeth. Bydd hyn yn caniatáu i wasanaethau gael eu datblygu a'u hadleoli er mwyn diwallu anghenion newidiol y boblogaeth a wasanaethir.

Mae angen adolygu'r defnydd o wasanaethau presennol ar draws y Gyfarwyddiaeth er mwyn ystyried moderneiddio ac adleoli adnoddau ymhellach er mwyn ateb y galwadau a roddir ar y gwasanaeth a darparu gwasanaeth teg o ansawdd uchel hyd at 2011 ac wedi hynny.

Ar hyn o bryd, rydym yn profi rhai anawsterau wrth gyflawni'r targedau Oedi wrth Drosglwyddo Gofal fel y nodwyd yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol. Ar hyn o bryd, un maes o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n cyflawni'r targedau a gytunwyd. Mae hyn yn peri pryder o fewn y Gyfarwyddiaeth gan fod y targedau ar gyfer 2010 a 2011 yn cynnig rhagor o heriau i'r gwasanaeth. Cyfeiriwch at **Atodiad 3** am ddata pellach.

Mae'r holl feysydd gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni'r targed hwn ac maent yn cydweithio ar draws asiantaethau er mwyn datrys y problemau gweithredol. Mae'r gwaith o gyflawni'r targed hwn yn dibynnu ar waith rhyngasiantaethol cydweithredol sylweddol gan fod ystod o resymau sylfaenol dros Oedi wrth Drosglwyddo Gofal wedi'u hadnabod ar draws gwasanaethau ac asiantaethau, o ofal iechyd i ofal cymdeithasol a thai.

Heriau Allweddol sy'n wynebu'r sefydliad a'r cyd-destun y mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn gweithredu ynddo

Mae nifer o heriau allweddol yn wynebu pob Sefydliad Iechyd yn yr hinsawdd bresennol. Yn gryno, mae'r heriau sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth a'r sefydliad fel a ganlyn:

- Uno â'r Bwrdd Iechyd Lleol
- Gofynion arbed costau effeithlonrwydd
- Rheoli newid ar draws grŵp amrywiol o weithwyr proffesiynol
- Anghenion datblygu'r gweithlu sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau wedi'u moderneiddio gan gynnwys materion datblygu a recriwtio staff
- Gwasgariad daearyddol eang a màs critigol y staff sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau lleol iawn
- Yr angen i fynd i'r afael â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau newydd i'r rheini sy'n dychwelyd ac sydd y tu allan i'r ardal ar hyn o bryd.

Yn fwy penodol, mewn perthynas ag Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, mae'r heriau hyn fel a ganlyn:

- Gwaith rhyngasiantaethol cydweithredol a derbyn cyfrifoldebau ar y cyd ar draws yr holl asiantaethau
- Diffyg tai addas yn enwedig lleoliadau â chymorth / preswyl
- Diffyg gwasanaethau amhreswyl yn lleol i ddiwallu anghenion cymhleth neu heriol
- Oedi a gwrthdaro rhwng asiantaethau wrth gytuno ar gyllid ar gyfer pecynnau gofal

Darpariaeth gwasanaethau i bobl ifanc dros 16 oed wrth bontio o wasanaethau plant i oedolion

Mae cytundeb gwaith presennol yn ei le ar gyfer gofal pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Mae'n seiliedig ar y Dull Rhaglen Ofal, felly bydd unrhyw unigolyn y nodwyd bod arno/arni angen ymwneud yn barhaus â Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y Dull Rhaglen Ofal yn dilyn y llwybr hwn.

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cwrdd â'r Cynulliad i ystyried pontio, yn unol â chanllawiau newydd sydd ar gael ynglŷn â darparu gwasanaethau i gleifion mewnol.

Effaith effeithiolrwydd gwasanaethau yn y gymuned ar dderbyniadau i'r ysbyty ac oedi wrth drosglwyddo gofal

Mae datblygiad timau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref, timau Allgymorth Grymusol ac ati, wedi caniatáu i ni barhau i leihau ein gwelyau cleifion mewnol aciwt i oedolion ers 2001. Cyn hyn, roedd 120 o welyau cleifion mewnol o fewn y gyfarwyddiaeth.

2000:

Sir Benfro = 40

Caerfyrddin a'r cylch gan gynnwys De Ceredigion = 28

Llanelli a'r Cylch = 30

Gogledd Ceredigion = 18

PICU = 4

2009:

Sir Benfro = 16

Caerfyrddin a'r cylch gan gynnwys De Ceredigion = 22 (+ 2 wely Dibyniaeth Fawr)

Llanelli a'r Cylch = 18

Gogledd Ceredigion = 16

Cyflwynwyd y Timau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref cyntaf yn 2001, yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, fel gwasanaeth peilot yn y lle cyntaf. Datblygwyd y gwasanaethau hyn heb fod adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu, drwy aildrefnu a moderneiddio gwasanaethau i gleifion mewnol.

Mae data a gasglwyd sy'n adlewyrchu gweithgarwch gwasanaethau wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1 a 3**

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu Timau Allgymorth Grymusol yn 2001/2002 ac mae gwasanaethau bellach yn eu lle ar draws ardal y Gyfarwyddiaeth.

Cyfeiriwch at **Atodiad 4** am ddata sy'n ymwneud â gweithgarwch Timau Allgymorth Grymusol.

Roedd yr effaith gychwynnol ar gyfraddau derbyn ac aildderbyn yn sylweddol wrth gyflwyno'r gwasanaethau hyn a rhesymoli nifer y gwelyau, er bod hyn wedi gwastatáu o ganlyniad i'r ffaith bod y Timau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref a'r Timau Allgymorth Grymusol bellach yn gweithio i'w capasiti. Heb ddatblygiad a buddsoddiad pellach, fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau i Oedolion, mae'n anodd gweld sut y gall y gwasanaethau hyn gael effaith bellach.

O fis Ebrill ymlaen, mae cyllid Gofal Parhaus ar gael i ddatblygu gwasanaethau cymunedol.

Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth yn y broses o ddatblygu Gwasanaeth Dydd Therapiwtig fel dewis arall ar wahân i dderbyn neu driniaeth yn y cartref, er mwyn cynnig dewis arall mwy cynhwysfawr ar wahân i dderbyn cleifion mewnol, a bwriedir ei lansio ddiwedd 2009. Mae'r Gwasanaeth Dydd Therapiwtig yn gydran hanfodol o'r Gwasanaeth Gofal Acíwt a fydd yn cynnig ymgysylltiad ystyrlon ac ymyriadau therapiwtig i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny a fyddai fel arall wedi'u derbyn i uned cleifion mewnol. Bydd y gwasanaeth yn darparu triniaeth, cyfyngiant a chymorth ar gyfer yr unigolion hynny sydd â phroblem iechyd meddwl ddifrifol y mae arnynt angen mynediad

cyflym at ofal, ond y problemau hynny nad ydynt mor fawr fel bod arnynt angen gofal cleifion mewnol 24 awr.

Cydlyniad effeithiol elfennau gofal iechyd a chymdeithasol gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol o fewn y Gyfarwyddiaeth yn gweithio o fewn fframwaith y Dull Rhaglen Ofal, gan integreiddio arferion clinigol Gofal Iechyd a Chymdeithasol gan gynnwys sicrhau bod y broses atgyfeirio yn digwydd drwy fan canolog gyda phenderfyniad amlddisgyblaethol yn cael ei wneud ynglŷn ag asesu a phennu i ymarferwyr gofal iechyd neu gymdeithasol er mwyn cydgysylltu gofal. Pan fo mwy nag un person / asiantaeth dan sylw, bydd y person mwyaf priodol yn cael ei bennu'n Gydgysylltydd Gofal, gyda'r disgyblaethau / asiantaethau gwahanol yn gweithio o fewn cynllun gofal integredig i ddiwallu anghenion gofal iechyd a chymdeithasol yr unigolyn.

Mae system reoli integredig ar gyfer staff gofal iechyd a chymdeithasol o fewn nifer o'r Tîmau Iechyd Meddwl Cymunedol yn y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn weithredol ers 2005, gydag un rheolwr tîm wedi'i benodi i reoli'r holl bersonél o fewn y tîm. Fodd bynnag, nid yw polisïau neu gyllidebau wedi'u huno ar draws sefydliadau fel rhan o'r broses integreiddio, felly mae systemau cyfochrog yn dal i fod yn eu lle.

Materion cydraddoldeb sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gan gynnwys y rheini ar gyfer grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Mae ein system cofnodi clinigol electronig a ddefnyddir ar gyfer yr holl atgyfeiriadau (e-Face) yn casglu ystod eang o grwpiau ethnigwydd e.e. yn gwahaniaethu rhwng grwpiau ethnig. Atodir sgrîn luniau.

FACE Profiler - Richard Training

File Reporting View Help

Entering data for: **Anderson, Jayne**
Service: Training

Personal Details Activity Summary Service Involvements

Registration

Date of birth	22/10/1957	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Date of death			
Age			
Marital/partnership status	Single	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Country of birth	Wales	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Citizenship	Wales	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Ethnic origin	White - British	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Need for interpreter			
Disability			
Religious affiliation			
Primary client category			

Status

Other Personal Details

Telephone Nos

Work telephone number
Mobile number
Parents' contact numbers
Parents home
Parents work
Parents mobile

Demographic data


Primary language			
Preferred language	Welsh	20/02/2009	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Religious support requested			
Occupation			
Employment status			

Housing

Type of accommodation
Tenure
Landlord

FACER562105 database in use

Start Jayne Anderson... Standards 2.2, ... 13 Microsoft ... Adobe Reader ... FACE Profiler 09:11



FACE Profiler - October Training

File Reporting View Help

Entering data for: **Anderson, Jayne**
Service: Training

Personal Details Activity Summary Service Involvements

Registration

Social Services ID			
LHB code			

Demographic data

Gender			
Date of birth			
Date of death			
Age			
Marital/partnership status			
Country of birth			
Citizenship			
Ethnic origin	Mixed - White and Black Caribbean	26/02/2009	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Need for interpreter			

Other Personal Details

Telephone Nos

Work telephone number
Mobile number
Parents' contact numbers
Parents home
Parents work
Parents mobile

Demographic data

Primary language			
Preferred language			
Religious support requested			
Occupation			
Employment status			


Housing

Type of accommodation
Tenure
Landlord

FACER562105 database in use

Start Jayne Anderson... Standards 2.2, ... 14 Microsoft ... Adobe Reader ... FACE Profiler 09:13





Mae Adolygiad Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru o Safon 2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl Oedolion yn sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio gofal wedi'u hyfforddi i adnabod anghenion diwylliannol a chrefyddol rhai grwpiau ethnig a gwybod ble i geisio cyngor ar sut i ymateb i anghenion o'r fath. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cael ei gymhwyso i arferion yr holl weithwyr proffesiynol o fewn y Gyfarwyddiaeth.

Mae'r offeryn asesu cychwynnol a ddefnyddir i asesu angen unigolion am gymorth dan y Dull Rhaglen Ofal yn cynnwys angen diwylliannol - gweler y sgrîn lun o Broffiliwr e-FACE isod:

FACE Profiler - Richard Training

File Reporting Help

Entering data for: Anderson, Jayne
Service: Training

Personal Details Activity Summary Service Involvements → Training 27/10/2008

Referral Diagnosis Centres of Care → Training suite 27/10/2008

Assessment Key Item Review Care Plan Activity Record

Social activity outside the home	Very severe problem	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Social interaction		
Social circumstances			
Housing	Mild problem	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Financial situation	Mild problem	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Manages own finances?		
Daytime activity	Very severe problem	09/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Social vulnerability	Moderate problem	27/10/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Cultural needs			
Cultural needs		
Special diet		
Needs regarding customs/observances		
Other cultural needs		
Risk			
Risks to others	Low apparent risk	01/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Risks to self	Low apparent risk	01/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Risk of suicide	No	01/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Risk of severe self-neglect	Yes	09/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Risk of deliberate self-harm	No	09/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Risk of accidental self-harm	Yes	01/12/2008	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
Risk related to physical condition		

View	Date	Status	Creator
FACE Initial Assessment (OPMH VS)	10/12/2008 11:48:50	Open	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
FACE Risk Profile (AMH VS)	09/12/2008 14:21:47	Closed	James, Emily, Miss, Psychiatric nurse
FACE Risk Profile (AMH VS)	14/11/2008 11:19:10	Closed	Payne, Simon, Mr., Other care worker
FACE Risk Profile (AMH VS)	27/10/2008 11:30:27	Closed	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse
FACE Core Assessment (AMH VS)	27/10/2008 11:07:32	Closed	Anderson, Jayne, Mrs., Psychiatric nurse

Start Jayne Anderson... Standards 2.2, ... 15 Microsoft ... FACE Profiler

FACER562105 database in use

11:49

Assessment considered cultural issues and any specific diet, customs or observances that are required together with other cultural needs

Mae'r holl staff newydd o fewn y Gyfarwyddiaeth yn mynychu Hyfforddiant Sylfaen Rheoli Gofal Integredig – bydd yr angen i ystyried anghenion ethnigrydd / eraill yn hanfodol i'r pecyn hyfforddiant diwygiedig sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Enghreifftiau o arfer da wrth gyflenwi gwasanaethau

Mae nifer o enghreifftiau diweddar o arfer clinigol da ar draws y Gyfarwyddiaeth, a manylir ar rai ohonynt isod:

Rhaglen Datblygu Heddlu Cymunedol – Yn ddiweddar, roedd y Gyfarwyddiaeth yn llwyddiannus wrth dderbyn gwobr y Prosiect Gorau a Arweinir gan Nyrsys mewn lechyd Meddwl yn Seremoni Gwobrau Blynyddol lechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Cymru. Mae'r Rhaglen Datblygu Heddlu Cymunedol wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus am 4 blynedd ac mae dros 300 o swyddogion wedi'i mynychu. Mae'r pecyn hyfforddiant lechyd Meddwl yn cael ei gyflwyno i Sarsiantiaid y Ddalfa a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac yn fuan bydd yn cael ei gyflwyno i'r Comandariaid Aur ac Arian yn yr Adran Arfau Tanio. Mae'r rhaglen yn arloesol a dyma'r prosiect cyntaf yng Nghymru a arweinir gan nyrsys sy'n cyflwyno rhaglen hyfforddiant iechyd meddwl barhaus i'r heddlu. Mae'r hyfforddiant wedi arwain at brofiad mwy cadarnhaol i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae'r fenter hon yn amlygu arfer da wrth weithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau.

Gwobr Adeiladau Gwell mewn Gofal Iechyd (DU) – Dyfarnwyd y wobwr AGGI (DU) i'r Gyfarwyddiaeth yn 2003 am gynllun Uned Sant Caradog yn Sir Benfro.

Gwobr Nyrsio Iechyd Meddwl Cymru Gyfan – Dyfarnwyd y gwobr NIMCG i'r Ymddiriedolaeth yn 2006 am y Fenter Amser wedi'i Neilltuo a roddwyd ar waith mewn Unedau Cleifion Mewnol i Oedolion o fewn y Gyfarwyddiaeth. Nod y fenter oedd sicrhau bod amser penodedig ar gael yn ystod y sifft waith i ryngweithio'n ddi-dor gyda chleifion.

Gwobr Hysbysu Gofal Iechyd / Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd – Dyfarnwyd Gwobr yr AGAAGI am Wybodaeth a Thechnoleg i'r Gyfarwyddiaeth yn 2007 am y Prosiect Rheoli Gofal Integredig ac am roi system cofnodi clinigol e-FACE ar waith o fewn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Statws Datblygu Arfer – Dyfarnwyd achrediad i Dîm Allgymorth Grymusol Sir Benfro fel Uned Datblygu Arfer o fewn y DU yn 2007. Mae wedi'i chydabod yn ardal o arfer da wrth gyflenwi gwasanaethau y gellir meincodi gwasanaethau eraill yn eu herbyn a'u datblygu felly.

Gwobr y Gymraeg mewn Gofal Iechyd - Roedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn llwyddiannus wrth dderbyn Gwobr y GGI yn 2007 am ei waith arloesol gyda disgyblion 6^{ed} dosbarth Ysgol Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin. Yn 2008, roedd y Gyfarwyddiaeth yn llwyddiannus unwaith eto wrth ennill y gwobr am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Seicoleg i Oedolion Hŷn o fewn y Gyfarwyddiaeth.

Achrediad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion – Mae'r Adran Therapi Electrogynhyrfol o fewn y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill achrediad gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a'r Gymdeithas Therapi Electrogynhyrfol). Mae'r gwasanaeth wedi'i gydnabod yn faes rhagoriaeth yn ystod proses adolygu ac ail-achredu ddiweddar. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd wedi cofrestru'r Gwasanaeth Clinig Cof ar gyfer ystyriaeth am achrediad gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yn 2009/2010.

Modiwlau Hyfforddiant gyda Phrifysgol Cymru Abertawe – Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi llwyddo i ddatblygu nifer o fodiwlau hyfforddiant mewn Partneriaeth â'r Ysgol Gwyddor Iechyd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe. Mae'r Modiwl Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref wedi'i gyflwyno ers 2006 ac mae 3 carfan wedi cwblhau'r modiwl. Mae Rheolwr y Tîm Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref wedi'i secondio am 1 diwrnod yr wythnos i ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso'r modiwl hyfforddiant. Mae Modiwl pellach wedi'i ddatblygu ar Gydgyssylltu Gofal a'r Dull Rhaglen Ofal a fydd yn cael ei gyflwyno fel modiwl hyfforddiant peilot yn 2009.

Hyfforddiant Sgiliau Therapiau Seicolegol – Ymgwymerwyd â phrosiect yn 2006/2007 i bennu lefel bresennol y Sgiliau Therapi Seicolegol o fewn gweithlu'r Gyfarwyddiaeth, er mwyn adnabod pecyn cymorth safonol o'r sgiliau sydd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau yn effeithiol. Mae rhaglen hyfforddiant barhaus wedi'i datblygu o ganlyniad i hynny, er mwyn darparu rhaglen dreigl o hyfforddiant Sgiliau Therapiau Seicolegol ar gyfer yr holl staff newydd a phresennol, fel y bo'n briodol, gan gynnwys Therapi Sgema, Therapi Dialectegol Ymddygiadol, a Therapi Gwybyddol Ymddygiadol.

Partneriaeth Llinell Gymorth CALL – Ers 2006, rydym wedi ymrwmo i gydweithredu gyda'r Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol er mwyn hwyluso gwelliannau wrth gyflenwi gwasanaethau a chysondeb ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau. Mae cyfeiriad cyswllt e-bost penodedig yn weithredol er mwyn rheoli'r holl gyfathrebu rhwng yr asiantaethau sy'n rhan o'r cytundeb.

Gwobrau Cymdeithas y Dull Rhaglen Ofal – Roedd y Gyfarwyddiaeth yn llwyddiannus wrth ennill gwobrau oddi wrth y CDRhO yn y ddau gategori am Ragoriaeth mewn Gwybodaeth i staff, a Rhagoriaeth mewn Gwybodaeth i ofalwyr yn 2007.

Rhaglen Hyfforddiant "Gwyliwch y Bwlch" – Rhoddwyd y rhaglen hyfforddiant Gwyliwch y Bwlch ar waith o fewn yr Ymddiriedolaeth yn 2008 ac mae'n gyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant â'r nod o ddileu'r mythau ynglŷn ag iechyd meddwl ar gyfer ymarferwyr nad ydynt yn ymarferwyr iechyd meddwl o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r rhaglen yn cynnig trosolwg o wasanaethau iechyd meddwl, effeithiau salwch meddwl, sut y mae gweithwyr proffesiynol yn eu trin ac archwiliad o rai o'r heriau sy'n gysylltiedig â salwch meddwl. Mae'r rhaglen hyfforddiant wedi'i henwebu ar gyfer Gwobr Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd Richard C. Hunter 2008 (Ffederasiwn Iechyd Meddwl y Byd).

Mae Llwybr Gofal heb ei Drefnu ar gyfer y rheini â phroblem Iechyd Meddwl wedi'i ddatblygu ac mae DVD hyfforddi wedi'i baratoi i'w ddefnyddio gan gydasiantaethau.

Materion sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad hwn:

Gwendidau yn narpariaeth bresennol gwasanaethau cymunedol i oedolion.

Tai â Chymorth – Mae amrywiaeth o fodlau o ddarpariaeth Tai â Chymorth yn bodoli ar draws ardal y Gyfarwyddiaeth, a ddarperir gan asiantaethau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn fylchog ac nid yw'n cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaeth iechyd meddwl modern a ffyrdd newydd o weithio ar hyn o bryd drwy ddarparu seilwaith cadarn.

Gwasanaethau cymorth y tu allan i Wasanaethau Iechyd Meddwl statudol – Darperir ystod o wasanaethau cymorth gan sefydliadau statudol ac anstatudol o fewn ardal y Gyfarwyddiaeth, er bod y rhain yn amrywio'n sylweddol o ran capasiti, athroniaeth a dull cyflenwi. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn gyfyngedig o ran eu gallu i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau iechyd meddwl modern yn y gymuned.

Capasiti i gynnal a datblygu ymhellach gwasanaethau i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol – Mae gwasanaethau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref ac Allgymorth Grymusol wedi cael effaith sylweddol ar y dewisiadau triniaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth o fewn ardal y Gyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, heb fuddsoddiad pellach a moderneiddio gwasanaethau cysylltiedig, ni fydd effaith a datblygiad ychwanegol yn bosibl.

Bydd datblygu'r gwasanaethau uchod yn cynorthwyo wrth leihau Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal a pharhau i gefnogi'r rheini sy'n dychwelyd at wasanaethau lleol.

Integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol yn wael mewn rhai Timau Iechyd Meddwl Cymunedol.

Er bod system reoli integredig wedi'i rhoi ar waith o fewn nifer o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol yn ardal y Gyfarwyddiaeth, nid yw wedi'i rhoi ar waith ar draws pob Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, ac mae'n gyfyngedig o ran integreiddio sefydliadau go iawn h.y. adnoddau, cyllidebau a pholisïau.

Problemau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac sy'n pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Er bod protocol presennol wedi'i ddatblygu i roi cyfarwyddyd ar wasanaethau pontio, mae anghysondebau mewn arfer o hyd ar draws y Gyfarwyddiaeth. Yn ogystal, mae problemau o ran priodoldeb ac argaeledd gwasanaethau i gleifion mewnol ar gyfer y grŵp cleient hwn.

Materion sy'n ymwneud â dewisiadau eraill ar wahân i dderbyn i'r ysbyty a rhyddhau prydlon a diogel o ganlyniad i wasanaethau cymunedol annigonol gan gynnwys datrys argyfwng / triniaeth yn y cartref a gwasanaethau tai a chymorth.

Gwasanaethau dydd / gwelyau argyfwng – Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar hyn o bryd i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Gwasanaethau Dydd Therapiwtig o fewn y Gyfarwyddiaeth, â'r nod o'u rhoi ar waith ddiwedd 2009. Mae gwasanaethau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref wedi effeithio ar gyfraddau derbyn ond mae effaith bellach yn gyfyngedig o ganlyniad i faterion capasiti. Bydd cyflwyno Gwelyau Argyfwng a Gwasanaethau Dydd yn

hanfodol os ydym am sicrhau bod gwir ddewisiadau eraill ar wahân i dderbyn ar gael i boblogaeth ardal y Gyfarwyddiaeth.

Rhyddhau'n gynnar – Mae gwasanaethau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref wedi cael rhywfaint o effaith ar hwyluso'r broses o ryddhau'n gynnar o unedau cleifion mewnol, er bod eu capasiti wedi cyfyngu ar unrhyw effaith bellach yn y maes hwn heb fuddsoddiad ychwanegol.

Derbyn drwy Dimau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref – Mae Targed 13 y Fframwaith Gweithredu Blynyddol yn nodi, yn 2009/2010, fod angen i 95% o'r derbyniadau i unedau iechyd meddwl ddigwydd drwy'r Gwasanaeth Datrys Argyfwng. Mae anghysondeb wrth gydymffurfio â hyn ar hyn o bryd ar draws y Gyfarwyddiaeth, ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud i dynhau polisïau a gweithdrefnau gweithredol. Dangosir y data cyfredol ar gydymffurfiaeth â tharged 13 isod:

	Derbyniadau (n.)	% yn cynnwys DATHC 9am-5pm	% yn cynnwys DATHC y tu allan i oriau
Uned Afallon	14	7 (50%)	5 (35.7%)
Uned Bryngofal	7	2 (28.6%)	3 (42.9%)
Uned Cwm Seren	19	12 (63.2%)	7 (36.8%)
Uned Sant Caradog	11	4 (36.4%)	6 (54.5%)

Pryderon ynglŷn â'r Dull Rhaglen Ofal, gan gynnwys gweithredu amrywiol ledled Cymru.

Mae'r Dull Rhaglen Ofal wedi'i roi ar waith o fewn yr Ymddiriedolaeth ers 2004. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi ymaelodi â Chymdeithas y Dull Rhaglen Ofal ac mae'n aelod o grŵp Rhanbarthol Cymru sy'n caniatáu i arfer da gael ei rannu. Adnabuwyd bod system cofnodi clinigol electronig safonol yn gydran hanfodol o'r gwaith o gyflenwi'r Dull Rhaglen Ofal yn effeithiol.

Pryderon ynglŷn â digonolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledd corfforol a'r rheini â phlant.

Mae angen gwaith ychwanegol i ddatblygu ymhellach y rhaglen hyfforddiant ar Reoli Gofal Integredig er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn ffordd gynhwysfawr. Mae protocol ar y cyd wedi'i ddatblygu ar draws Gofal Iechyd a Chymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â salwch meddwl rhieni, er bod angen gwaith pellach er mwyn rhoi hyn ar waith mewn ffordd fwy cyson yn ymarferol.

Atodiad 1

Active CPA Overview

CPA* Database as at 7.1.09													
Area	Service	Active Patients	Enhanced Standard		Written Care Plan		Care Plan Distributed		Risk Assessment		UAP**	Last Review after 31.10.07	Next Review after 31.10.08
			Enhanced	Standard	Enhanced	Standard	Enhanced	Standard	Enhanced	Standard			
Ammanford	Adult	209	129	80	97%	85%	84%	69%	97%	80%	3	209	200
Ammanford	POA***	261	8	253	88%	94%	38%	91%	75%	93%	133	252	244
Carmarthen	Adult	397	267	130	98%	95%	77%	85%	99%	95%	2	340	258
Carmarthen	CAMHS	6	6	0	83%	0%	67%	0%	100%	0%	0	1	1
Carmarthen	POA	291	14	277	93%	99%	93%	94%	71%	34%	8	289	288
Ceredigion	Adult	445	169	276	100%	88%	100%	88%	95%	78%	391	380	332
Ceredigion	CAMHS	8	3	5	100%	80%	100%	20%	100%	80%	1	0	0
Ceredigion	POA	208	25	183	100%	58%	100%	57%	100%	57%	201	193	147
Llanelli	Adult	377	276	101	96%	93%	95%	92%	96%	93%	1	266	242
Llanelli	CAMHS	1	1	0	100%	0%	100%	0%	100%	0%	0	1	0
Llanelli	POA	433	33	400	100%	99%	3%	6%	100%	100%	218	425	424
Pembrokeshire	Adult	564	137	427	98%	99%	98%	99%	99%	100%	8	493	435
Pembrokeshire	CAMHS	9	6	3	100%	100%	100%	67%	83%	67%	0	0	0
Pembrokeshire	POA	275	22	253	100%	100%	100%	99%	100%	99%	3	250	224
Totals		3484	1096	2388	98%	93%	87%	75%	97%	84%	969	3099	2795

*CPA = Care Plan Approach : The CPA database is dynamic ie. It does not store historical details of previous review dates etc. It simply shows what the position is now.

**UAP = Unified Assessment Process - a joint assessment process with Social Services

***POA = Psychiatry of Old Age

Community Mental Health Teams

CMHT	County	Team Code	Team Referrals Received Jul - Sep 08
Aberystwyth Adult	Ceredigion	AZ	62
Aberystwyth EMI	Ceredigion	BZ	69
Llys Steffan	Ceredigion	RZ	0
South Teifi Valley	Ceredigion	FZ	85
Felinfach Learn. Dis.	Ceredigion	NZ	0
Ammanford Adult	Carmarthen	CZ	61
Carmarthen Adult	Carmarthen	DZ	36
Carmarthen POA	Carmarthen	EZ	66
Dynewfwr POA	Carmarthen	SZ	79
Llanelli Adult	Carmarthen	HZ	91
Llanelli POA	Carmarthen	IZ	99
Towy Valley	Carmarthen	GZ	26
Carmarthen Learn. Dis.	Carmarthen	MZ	0*
Llanelli Learn. Dis	Carmarthen	OZ	0*
Pembs North	Pembrokeshire	TZ	199
Pembs South	Pembrokeshire	UZ	52
Pembs POA	Pembrokeshire	VZ	100
Haverfordwest Learn. Dis.	Pembrokeshire	PZ	10
CAMHS	Dyfed	JZ	216

**some Learn Dis. Teams don't enter team referrals*

Inpatients

Adult & POA Assessment Ward Activity Oct - Dec 08						
Ward	Specialty	Area	Direct Admissions	Internal Ward Transfers	Total Admissions	Average Length of Stay (days)*
Cwm Seren	Adult	Cams	30	11	41	36.8
HDU	Adult	Cams	0	0	0	8.0
Morlais	POA	Cams	14	1	15	80.2
Bryngofal	Adult	Llanelli	27	4	31	23.5
Bryngolau	POA	Llanelli	17	3	20	95.8
Afallon	Adult	Cered	44	1	45	31.4
Enlli	POA	Cered	27	3	30	69.8
St Caradog	Adult	Pembs	18	4	22	45.0
St Non	POA	Pembs	30	0	30	38.0

*Ave LoS calculated by averaging the length of stay of all patients discharged in the period, excludes Home Leave. Calc from ward episodes.

Crisis Resolution & Home Treatment Teams

New Referrals & Outcomes Oct - Dec 08				
CRHT	Referrals	HT not appropriate or declined*	HT not appropriate due to Admission**	HT***
Carms	87	28	20	39
Pembs	115	24	9	82
Llanelli	83	26	8	49
Cered	64	18	8	38
Total	349	96	45	208

*Referred and discharged same day

***HT = Home Treatment

** Admission on same day as CRT referral

court CIS episodes

Average Length of Stay* (days) Oct - Dec 08		
Ward	CRHT	Non CRHT
Cwm Seren	27.4	44.6
St Caradog	31.6	52.6
Bryngofal	36.3	17.9
Afallon	14.1	34.9
Overall	27.4	37.1

*Excludes Home Leave

use finished episodes

Length of Involvement with CRHT Team Oct - Dec 08*						
CRHT	1 Day	1 Week	1-2 Weeks	2-4 Weeks	4-6 Weeks	6+ Weeks
Carms	28	18	12	10	3	2
Pembs	24	41	12	9	6	12
Llanelli	26	29	10	10	2	7
Cered	18	22	5	6	1	5
Total	96	110	39	35	12	26

*based on discharges

Contacts Oct - Dec 08		
Ward	Face 2 Face	Telephone
Carms	290	422
Pembs	350	418
Llanelli	266	240
Cered	86	242
Overall	992	1322

Atodiad 2:

Hywel Dda Performance Against New D To C Targets

Non MH Delays

	Target March 09 Per 10000 pop	Population (over 75s)	Actual Target March	December Performance		Avergae performance YTD	
C arms	16.03	17001	27.3	30	R	33.7	R
Ceredigion	9.52	7255	6.9	9	R	11.9	R
Pembs	2.74	10950	3.0	3	G	4.2	R

<u>08/09 Target</u>	<u>09/10 Target</u>	<u>10/11 Target</u>
16.03	11.48	6.93
9.52	8.23	6.93
2.74	2.74	2.74

Non MH Days delayed

	Target March 09 Per 10000 pop	Population (over 75s)	Actual Target March	December Performance		Avergae performance YTD	
C arms	547	17001	930.0	1,039	R	1,159	R
Ceredigion	205	7255	148.7	240	R	420	R
Pembs	123	10950	134.7	129	G	100	G

<u>08/09 Target</u>	<u>09/10 Target</u>	<u>10/11 Target</u>
547	342	137
205	171	137
123	123	123

MH Delays

	Target March 09 Per 10000 pop	Population	Actual Target March	December Performance		Avergae performance YTD	
C arms	0.42	178043	7.5	9	R	9.7	R
Ceredigion	0.18	77160	1.4	5	R	1.6	R
Pembs	0.19	117280	2.2	1	G	2.3	R

<u>08/09 Target</u>	<u>09/10 Target</u>	<u>10/11 Target</u>
0.42	0.30	0.18
0.18	0.18	0.18
0.19	0.19	0.18

MH Days delayed

	Target March 09 Per 10000 pop	Population	Actual Target March	December Performance		Avergae performance YTD	
C arms	24	178043	427.3	928	R	853	R
Ceredigion	12	77160	92.6	274	R	88	G
Pembs	15	117280	175.9	15	G	157	G

<u>08/09 Target</u>	<u>09/10 Target</u>	<u>10/11 Target</u>
24	17	9
12	10	9
15	12	9

Atodiad 3

Data Adrodd HISS lechyd Meddwl ar gyfer chwarter olaf 2008/09 mewn perthynas â Phorthgadw gan y gwasanaeth Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref (DATHC)

1^{af} Ionawr 2009 – 31^{ain} Ionawr 2009

Cyfanswm y Derbyniadau	46
Cyfanswm y Derbyniadau 9am i 9pm	31
Cyfanswm y Derbyniadau 9am i 9pm a dderbyniwyd gan DATHC	12 (38.7%) Targed 95%
Cyfanswm y Derbyniadau NAS derbyniwyd gan DATHC	30
Cyfanswm y Derbyniadau NAS derbyniwyd gan DATHC ond gyda dilyniant o fewn 24 awr	0 (0%) Targed 100%

1^{af} Chwefror 2009 – 28^{ain} Chwefror 2009

Cyfanswm y Derbyniadau	37
Cyfanswm y Derbyniadau 9am i 9pm	32
Cyfanswm y Derbyniadau 9am i 9pm a dderbyniwyd gan DATHC	20 (62.5%) Targed 95%
Cyfanswm y Derbyniadau NAS derbyniwyd gan DATHC	16
Cyfanswm y Derbyniadau NAS derbyniwyd gan DATHC ond gyda dilyniant o fewn 24 awr	0 (0%) Targed 100%

1^{af} Mawrth 2009 – 29^{ain} Mawrth 2009

Cyfanswm y Derbyniadau	51
Cyfanswm y Derbyniadau 9am i 9pm	37
Cyfanswm y Derbyniadau 9am i 9pm a dderbyniwyd gan DATHC	20 (54%) Targed 95%
Cyfanswm y Derbyniadau NAS derbyniwyd gan DATHC	26
Cyfanswm y Derbyniadau NAS derbyniwyd gan DATHC ond gyda dilyniant o fewn 24 awr	3 (11.5%) Targed

Casgliadau:

Mae mwyafrif y derbyniadau i Unedau Cleifion Mewnol i Oedolion yn digwydd rhwng 09.00 – 21.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r data'n dangos nad ydym yn cydymffurfio â Tharged y Fframwaith Gweithredu Blynyddol hyd yma.

Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod yr holl Staff lechyd Meddwl sy'n asesu defnyddwyr gwasanaeth am yr angen posibl i dderbyn yn cynnwys y gwasanaeth DATHC mewn trafodaethau ynglŷn â phriodoldeb eu derbyn. Pe na bai hyn yn gwella, yna bydd llwyth gwaith mwy o 1^{af} Ebrill 2009 ymlaen, o ran y gwasanaeth DATHC yn dilyn y cleifion hyn o fewn 24 awr iddynt gael

eu derbyn. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar driniaeth yn y cartref a ddarperir yn y Gyfarwyddiaeth.

Atodiad 4

Ionawr 2009: Iechyd Meddwl Oedolion

TGB (Targed Gweithredu Blynyddol) Sir Gaerfyrddin:

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO (Dull Rhaglen Ofal) ychwanegol yn ardal Caerfyrddin: 267

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO safonol yn ardal Caerfyrddin: 130

Llwyth achosion presennol:

Wedi trosglwyddo 1 ers yr adroddiad diwethaf

Niferoedd ar y llwyth achosion ar 31/12/08: 21

Niferoedd ar y rhestr aros: 1

Mae 7.86% o'r rheini ar DRhO ychwanegol ar y llwyth achosion ac mae 0.37% ar y rhestr aros.

Y cyfanswm yr ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y TGB felly yw 8.24%

TGB ardal Llanelli / Rhydaman:

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO ychwanegol yn ardal Llanelli / Rhydaman:
405

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO safonol yn ardal Llanelli / Rhydaman:
181

Llwyth achosion presennol:

Wedi trosglwyddo 2 ers yr adroddiad diwethaf

Niferoedd ar y llwyth achosion ar 31/12/2008: 22

Niferoedd ar y rhestr aros: 1

Mae 5.43% o'r rheini ar DRhO ychwanegol ar y llwyth achosion ac mae 0.25% ar y rhestr aros.

Y cyfanswm yr ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y TGB felly yw 5.68 %.

Cyfanswm Sir Gaerfyrddin yr ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf yw 6.69% (45 o bobl)

Pobl yn Sir Gaerfyrddin (poblogaeth 169,100) = 0.027% neu 2.7 fesul 100,000)

TGB Sir Benfro:

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO ychwanegol yn Sir Benfro: 137

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO safonol yn Sir Benfro: 427

Llwyth achosion presennol:

Wedi trosglwyddo 2 ers yr adroddiad diwethaf

Niferoedd ar y llwyth achosion ar 31/12/2008: 30

Niferoedd ar y rhestr aros: 2

Mae 21.89% o'r rheini ar DRhO ychwanegol ar y llwyth achosion ac mae 1.5% ar y rhestr aros.

Y cyfanswm yr ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y TGB felly yw (32) 23.36%

Pobl yn Sir Benfro (poblogaeth 115,300 = 0.028 % neu 2.8 fesul 100,000)

TGB Ceredigion:

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO ychwanegol yng Ngheredigion:
169

Defnyddwyr gwasanaeth DRhO safonol yng Ngheredigion: 276

Llwyth achosion presennol:

Wedi trosglwyddo 1 ers yr adroddiad diwethaf

Niferoedd ar y llwyth achosion ar 31/12/2008: 13

Niferoedd ar y rhestr aros: 0

Mae 7.69% o'r rheini ar DRhO ychwanegol ar y llwyth achosion ac mae 0% ar y rhestr aros.

Y cyfanswm yr ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y TGB felly yw 7.69%

Pobl yng Ngheredigion (poblogaeth 75,000 = 0.17% neu 17 fesul 100,000)